**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 19 Hydref 2021 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Berwyn Parry Jones, Haf Williams, Alan Pritchard, Cemlyn Jones, Meirwen Lloyd, Goronwy Hughes, Beca Brown, Phillip Roberts, Martin Jones, Richard Robinson.

**Ymddiheuriadau:** Neb

**Cyfieithydd:** Lowri Gwyn, Lingo Cyf

**Aelodau o'r cyhoedd:** Paul Maher, Elliw Griffith, Dee Williams, Sioned Roberts, Moli Fflur, Alys Parry Jones, Ann Lawton

**Clerc:** Meirion Jones

**887. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**888. Derbyn ymddiheuriadau.**

Neb

**889. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**890. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 21 Medi 2021**

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**891. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

**883 –** Mynegwyd pryder am y cyflymder ar ffordd osgoi cwm y Glo

**Penderfynwyd:** Byddai'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones fel cynrychiolydd Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd yn cymryd y mater fyny gyda swyddogion Cyngor Gwynedd

**892. I dderbyn cyflwyniad gan Lowri Vaughan o Prosiect Gwyrdd Ni**

Yn anffodus wedi gorfod canslo

**893. I dderbyn cyflwyniad gan Maldwyn Peris o Elusen Dyffryn Peris**

Wedi ymddiheuro – methu bod yn bresennol

**894.** **I dderbyn cyflwyniad gan Mike Plant – Rheolwr Diogelwch Cymunedol**

Wedi ymddiheuro – methu bod yn bresennol

**895.** **I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**Cyngor Gwynedd**

**Cyfarfod Adran Amgylchedd**

Mynychais gyfarfod gyda'r Adran Amgylchedd i drafod cynllun ail wifro y Grid Cenedlaethol. Rhoddwyd ddiweddariad i ni o'r cynllun gyda y gwaith i ddechrau yn y flwyddyn newydd. Yn anffodus fydd hyn yn golygu goleuadau traffig ac oedi eto. Mae na ar hyn o bryd gynnig o swm fychan o arian er mwyn rhoi ychydig o fudd i'r Cymunedau. Ond fel fedrwch feddwl fydd ddim llawer wedi ei rannu rhwng 5 ward.

**Byw'n Iach**

Y cwmni wedi symud i lefel 0 rŵan, ac yn agored bron fel arfer, heblaw fod dal angen gwisgo masgiau pan yn cerdded o gwmpas yr adeiladau, a bod y niferoedd yn y dosbarthiadau yn llai i alluogi pawb i gadw pellter cymdeithasol.

**Adra**

Gwell cynrychiolaeth o ferched ar y Bwrdd erbyn hyn tua 50 / 50 ond dal gormod o bobl hŷn, mae hi yn anodd denu bobol ifanc.

**Yn Lleol**

Rwyf yn dal i ddisgwyl ymatebion gan y Cyngor Sir ynglŷn nifer o ymholiadau rwyf wedi ei wneud gan gynnwys lleoliad yr arwydd 40mya wrth ddod i Cwm y glo o gyfeiriad Llanberis, or-gyflymder Ffordd Ceunant/Tanycoed, amserlen trosglwyddo Ysgol Cwm y glo i Menter Fachwen.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**896.** **I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

Adroddiad i ddilyn

**897.** **Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C21/0952/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad un llawr at gefn tŷ annedd
**Ymgeisydd:** Mrs Alice Roden
**Cyfeiriad:** 45 Nant Y Glyn, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AH
**Cyfeirnod Grid:** 253748.89, 363418.78
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

b) **Rhif y Cais:** C21/0931/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Codi estyniad at uned ddofednod presennol er mwyn cynnwys 16,000 o ieir ychwanegol (ar gyfer cynhyrchu wyau rhydd) ynghyd â gwaith cysylltiol

**Ymgeisydd:** Mackinnon (D C & H Mackinnon)
**Cyfeiriad:** Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PY
**Cyfeirnod Grid:** 252190.74, 362497.96
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

c) **Rhif y Cais:** C21/0773/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Codi adeilad amaethyddol i'w ddefnyddio ar gyfer cadw tail a phob gwaith cysylltiol.
**Ymgeisydd:** Mackinnon (D C & H Mackinnon)
**Cyfeiriad:** Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PY
**Cyfeirnod Grid:** 252251.71, 362645.16
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

d) **Rhif y Cais:** C21/0564/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais ar gyfer codi 4 ty fforddiadwy
**Ymgeisydd:** Morris (Morris Build for Life)
**Cyfeiriad:** Tir Ger Glyntwrog Inn, Llanrug, Caernarfon, LL55 4AN
**Cyfeirnod Grid:** 254145.24, 363237.3
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu'r cais am y rhesymau sydd eisoes wedi eu cyflwyno

**898. I benderfynu pa gamau i'w cymryd yn dilyn cwyn am lwybr o Dolafon i dop Cwm y Glo. (Cyng Alan Pritchard)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Alan Pritchard ei fod wedi derbyn cwyn am gyflwr llwybr Carreg y Fran ac fod lluniau o'r anawsterau ar hyn y llwybr wedi anfon. Ymysg yr anawsterau oedd

- Fod ffens wedi roi ar draws man cychwyn y llwybr;
- Fod dwy wal angen eu clirio
- Fod giât gyda dau bostyn wedi ei osod ar ei thraws
- Fod weiren ar draws y llwybr

**Penderfynwyd:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones am gysylltu a swyddog llwybrau Cyngor Gwynedd

**899. I dderbyn cyflwyniad gan yr ymgeiswyr ar gyfer y ddwy sedd wag.**

Adroddwyd fod pedair ymgeisydd heno am ddwy sedd wag.

Cafodd y bedair ymgeisydd gyfle i gyflwyno eu hunain a gofynnwyd pum cwestiwn safonol i'r ymgeiswyr yn seiliedig ar waith y cyngor. Yna cafodd yr aelodau gyfle i holi'r ymgeiswyr ac i gloi cyfle i'r ymgeiswyr ofyn cwestiynau wrth y cyngor.

**900. Cau Allan y cyhoedd a'r wasg - Yn dilyn y cyflwyniad, fod y cyngor yn penderfynu atal y cyhoedd o'r cyfarfod i benderfynu cyfethol neu beidio.**

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 Adran 1 (2) yn nodi

Caiff corff, trwy benderfyniad, wahardd y cyhoedd o gyfarfod (p'un ai yn ystod yr achos cyfan neu ran ohono) pryd bynnag y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i gael ei drafod neu am resymau arbennig eraill a nodwyd yn y penderfyniad ac sy'n deillio o natur y busnes hwnnw neu'r achos; a phan fydd penderfyniad o'r fath yn cael ei basio, ni fydd y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarfod bod yn agored i'r cyhoedd yn ystod achos y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddo.

**Penderfynwyd**:

- Gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod
- Etholwyd Sioned Roberts ac Elliw Griffith i lenwi'r ddwy sedd wag
- Y Clerc i wneud y trefniadau angenrheidiol

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 16 Tachwedd 2021